

## **Y CYFANSODDIAD ADRAN 8 Y PWYLLGOR SAFONAU**

### **8 Cyfansoddiad**

#### **8.1 Aelodaeth**

Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys naw o Aelodau. Mae ei Aelodaeth yn cynnwys:

- 8.1.1 Pump o Aelodau "annibynnol", nad ydynt yn Gyngorwyr nac yn Swyddogion nac yn briod i Gyngorwyr na Swyddogion o'r Cyngor hwn neu unrhyw Awdurdod perthnasol arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, a benodwyd yn unol â'r weithdrefn a amlinellir yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd);
- 8.1.2 Tri o Gyngorwyr heblaw am yr Arweinydd neu Aelod o'r Bwrdd Gweithredol; a
- 8.1.3 Un Aelod Cyngor Cymuned o Gyngor Cymunedol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam a sydd ddim yn Gyngorydd.

#### **8.2 Cyfnod yn y Swydd**

- 8.2.1 Penodir Aelodau Annibynnol am gyfnod o bedair blynedd o leiaf ond dim mwy na chwe blynedd, a cheir eu hailbenodi am gyfnod olynol nad yw'n fwy na phedair blynedd.
- 8.2.2 Bydd gan Gyngorwyr gyfnod yn y swydd o ddim mwy na phedair blynedd neu hyd nes yr etholiad llywodraeth leol cyffredin nesaf, pa un bynnag sydd fyrraf. Ceir eu hailbenodi am un cyfnod olynol arall. Bydd Cyngorydd yn peidio â bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau os yw ef / hi yn peidio a bod yn Cyngorydd.
- 8.2.3 Bydd gan yr aelod Cyngor Cymuned gyfnod swydd heb fod yn fwy na 4 blynedd neu tan yr etholiadau cyffredin nesaf ar gyfer y cyngor cymuned y mae ef/hi yn aelod yn dilyn ei b/phenodi, pa un bynnag yw'r byrraf. Gall ef/hi gael ei hailbenodi am 1 tymor olynol pellach. Bydd yr aelod Cyngor Cymuned yn peidio â bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau os yw ef/hi yn peidio â bod yn aelod o Gyngor Cymuned o fewn ardal y Cyngor.

#### **8.3 Cworwm**

Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau yn gwneud cworwm dim ond pan fydd:

- 8.3.1 o leiaf pedwar o Aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd, yn bresennol; ac
- 8.3.2 o leiaf hanner yr Aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y Cadeirydd) yn Aelodau Annibynnol; ac
- 8.3.3 mae o leiaf un Cyngorydd yn bresennol.

#### **8.4 Pleidleisio**

Bydd gan Aelodau Annibynnol ac Aelodau Cyngorau Cymuned yr hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

## **8.5 Cadeirio'r Pwyllgor**

8.5.1 Dim ond Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a gaiff fod yn Gadeirydd.

8.5.2 Etholir y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau am ba un bynnag o'r canlynol yw'r cyfnod byrraf:

- (i) dim llai na phedair blynedd neu ddim mwy na chwe blynedd; neu
- (ii) hyd nes bod cyfnod yr Aelod Annibynnol yn y swydd yn dod i ben.

## **8.6 Aelod Cyngor Cymuned**

Ni chaiff Aelod Cyngor Cymuned cymryd rhan mewn unrhyw achos yn y Pwyllgor Safonau yn ymneud a'i Gyngor / Chyngor Dref neu Gymuned nhw.

## **8.7 Is-bwyllgorau**

Caiff y Pwyllgor Safonau apwyntio is-bwyllgor i gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 54A Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Caiff is-bwyllgor:-

8.7.1 cynnwys dim llai na tri aelod o'r Pwyllgor Safonau;

8.7.2 ond fod gyda chworwm os:-

- (i) mae o leiaf dau aelod yn bresennol, gan gynnwys y Cadeirydd; a
- (ii) mae o leiaf hanner y rhai sy'n bresennol (gan gynnwys y Cadeirydd) yn Aelodau Annibynnol.

## **8.8 Rôl a Swyddogaeth**

Bydd gan y Pwyllgor Safonau y rolau a'r swyddogaethau canlynol:

8.8.1 hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;

8.8.2 cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau;

8.8.3 cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau, y Protocol ar gyfer Cysylltiadau Aelodau/Swyddogion, ac unrhyw Godau eraill y mae'r Cyngor yn eu cyflwyno yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau;

8.8.4 monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;

8.8.5 cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad Aelodau, y Protocol ar gyfer Cysylltiadau Aelodau/Swyddogion, ac unrhyw Godau eraill y mae'r Cyngor yn eu cyflwyno yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau;

- 8.8.6 rhoi gollyngiadau sy'n galluogi cyfranogiad gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig y Cyngor mewn unrhyw fusnes sydd wedi ei wahardd gan ddarpariaethau gorfodol y Cod Ymddygiad yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001;
- 8.8.7 Y swyddogaethau perthnasol i Bwyllgorau Safonau a nodir yn Rheoliadau Archwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 sy'n ymwneud â honiad gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig o'r Cod Ymddygiad;
- 8.8.8 Goruchwyllo trefn Rhannu Pryderon y Cyngor;
- 8.8.9 Ystyried yn unol â Chynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau'r Cyngor achosion o ddiffyg presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd.

### **8.9 Rhaglen Waith**

Bydd y Pwyllgor yn paratoi rhaglen waith, a fydd yn cael ei hadolygu a'i chymeradwyo ym mhob cyfarfod Pwyllgor.

### **8.10 Rheolau Gweithdrefnol a Thrafod**

8.10.1 Bydd Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor yn Adran 4 yn berthnasol i gyfarfodydd Aelodau'r Pwyllgor Safonau.

8.10.2 Wrth ystyried ymddygiad Cynghorwyr unigol, bydd y gweithdrefnau a amlinellir yn Adran 18CH yn berthnasol.